Pennod VI

RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â PHENODI AC ENWEBU

REGULATIONS RELATING TO APPOINTMENTS AND NOMINATIONS

Chapter VI

PENNOD VI

RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â PHENODI AC ENWEBU

Rhan 1: Byrddau Enwebu

1 Bwrdd Enwebu'r Esgobaeth
2
3
4
5
6
7
8 Bwrdd Enwebu'r Dalaith
9
10 Methiant i Enwebu
11
12
13 Gweithdrefn yn dilyn Enwebu
14
15
16

Rhan II: Sefydlu

17 Sefydlu yn dilyn Derbyn

Rhan III: Cyfnewid Bywoliaethau

18

CHAPTER VI

REGULATIONS RELATING TO APPOINTMENTS AND NOMINATIONS

Part 1: Boards of Nomination

1 The Diocesan Nomination Board
2
3
4
5
6
7
8 The Provincial Nomination Board
9
10 Failure to Nominate
11
12
13 Procedure following Nomination
14
15
16

Part II: Institution

17 Institution following Acceptance

Part III: Exchange of Benefices

18

Pennod VI: Rheoliadau'r Corff Llywodraethol yn ymwneud â Phenodi ac Enwebu

Yn unol â'i alluoedd o dan Bennod II y Cyfansoddiad, y mae'r Corff Llywodraethol trwy hynyma yn gwneud y rheoliadau a ganlyn o dan y teitl "Rheoliadau'r Corff Llywodraethol yn ymwneud â Phenodi ac Enwebu", a draethir fel a ganlyn:

Rhan I: Byrddau Enwebu

Bwrdd Enwebu'r Esgobaeth

1.1 Pan ddaw Plwyf sengl yn wag, aelodau Bwrdd Enwebu'r Esgobaeth fydd:

1.1.1 Esgob yr Esgobaeth;

1.1.2 Archddiacon yr archddiaconiaeth lle y mae'r ofalaeth wag;

1.1.3 dau Glerig sy'n aelodau o Gynhadledd yr Esgobaeth, wedi'u hethol bob tair blynedd gan aelodau Clerigol y Gynhadledd;

1.1.4 tri pherson lleyg sy'n aelodau o Gynhadledd yr Esgobaeth, wedi'u hethol bob tair blynedd gan aelodau lleyg y Gynhadledd; a

1.1.5 dau berson lleyg yn cynrychioli'r Plwyf lle mae'r ofalaeth yn wag, wedi'u hethol gan Gyngor Plwyf Eglwysig y Plwyf hwnnw yn unol â Rheoliad 1.4.

1.2 Pan ddaw perigloriaeth sy'n cynnwys dau neu fwy o Blwyfi a Grwpiwyd yn wag, aelodau Bwrdd Enwebu'r Esgobaeth fydd:

1.2.1 Esgob yr Esgobaeth;

1.2.2 Archddiacon yr archddiaconiaeth lle y mae'r ofalaeth wag;

1.2.3 un Clerig i gyfateb i bob Plwyf yn yr uned, a'r Clerigion hynny'n aelodau o Gynhadledd yr Esgobaeth, wedi'u hethol bob tair blynedd gan aelodau Clerigol y Gynhadledd;

1.2.4 tri pherson lleyg sy'n aelodau o Gynhadledd yr Esgobaeth, wedi'u hethol bob tair blynedd gan aelodau lleyg y Gynhadledd; a

1.2.5 un person lleyg yn cynrychioli pob Plwyf lle mae'r ofalaeth yn wag, wedi'u hethol gan Gyngor Plwyf Eglwysig pob un o'r Plwyfi hynny yn unol â Rheoliad 1.4.

1.3 Gwysir pob un o Archddiaconiaid yr esgobaeth i fod yn bresennol yng nghyfarfod Bwrdd Enwebu'r Esgobaeth, i gynghori ac i gynorthwyo'r Bwrdd; ond ni fydd gan yr un Archddiacon, onid yw'n aelod o'r Bwrdd yn y cyfarfod hwnnw, yr hawl i bleidleisio ac eithrio wrth ethol cynrychiolydd lleyg ac aelodau atodol i Fwrdd Enwebu'r Dalaith yn unol â Rheoliad 8.

Chapter VI: Governing Body Regulations relating to Appointments and Nominations

In exercise of its powers under Chapter II of the Constitution of the Church in Wales, the Governing Body hereby makes the following regulations entitled "Governing Body Regulations relating to Appointments and Nominations" which are set out as follows:

Part I: Boards of Nomination

The Diocesan Nomination Board

1.1 In the case of a vacancy in an incumbency comprising a single Parish, the Diocesan Nomination Board shall consist of:

1.1.1 the Diocesan Bishop;

1.1.2 the Archdeacon of the archdeaconry in which the cure is vacant;

1.1.3 two Clerics, being members of the Diocesan Conference, elected triennially by Clerical members of the Conference;

1.1.4 three lay persons, being members of the Diocesan Conference, elected triennially by the lay members of the Conference; and

1.1.5 two lay persons, representatives of the Parish in which the cure is vacant, elected by the Parochial Church Council of that Parish in accordance with paragraph 1.4.

1.2 In the case of a vacancy in an incumbency comprising two or more Grouped Parishes, the Diocesan Nomination Board shall consist of:

1.2.1 the Diocesan Bishop;

1.2.2 the Archdeacon of the archdeaconry in which the cure is vacant;

1.2.3 one Cleric in respect of each Parish in the group, such Clerics, being members of the Diocesan Conference, elected triennially by the Clerical members of the Conference;

1.2.4 three lay persons, being members of the Diocesan Conference, elected triennially by the lay members of the Conference; and

1.2.5 one lay person, a representative of each Parish in which the cure is vacant, elected by the Parochial Church Council of each such Parish in accordance with Regulation 1.4.

1.3 Every Archdeacon of the diocese shall be summoned to attend the meeting of the Diocesan Nomination Board, to advise and assist the Board, but no Archdeacon, unless he or she be a member of the Board at that meeting, shall be entitled to a vote, except for the purpose of electing the lay representative and supplemental representatives to the Provincial Nomination Board in accordance with Regulation 8.

1.4 Etholir y personau neu'r personau y cyfeirir atynt yn Rheoliadau 1.1.5 ac 1.2.5 gan y Cyngor Plwyf Eglwysig o blith ei aelodau lleyg o fewn wyth diwrnod ar hugain i hysbysu'r Cyngor Plwyf Eglwysig gan Ysgrifennydd Bwrdd Enwebu'r Esgobaeth bod yr ofalaeth y mae'r rheoliadau'n berthnasol iddi yn wag.

1.5 O fewn wyth diwrnod ar hugain i Ysgrifennydd Bwrdd Enwebu'r Esgobaeth hysbysu'r Cyngor Plwyf Eglwysig am unrhyw un o'r digwyddiadau a ganlyn:

1.5.1 bod perigloriaeth y mae Rheoliad 9 yn berthnasol iddi yn wag;

1.5.2 cynnig gan yr Esgob i fynd ati i symud Periglor yn unol â Phennod VI adran 17;

1.5.3 yr Esgob neu'r Esgobion fel y bo'r achos yn cytuno i gyfnewid Bywiolaethau yn unol â Rheoliad 18; neu

1.5.4 yr Esgob yn penderfynu symud ymlaen yn unol â Phennod VI adran 8 i benodi Ficer i Fywoliaeth Reithorol;

bydd y Cyngor Plwyf Eglwysig yn ethol dau aelod lleyg i gynrychioli'r Plwyf ar Fwrdd Enwebu'r Esgobaeth.

1.6 Os metha'r Cyngor Plwyf Eglwysig ethol cynrychiolwyr yn unol â'r Rheoliad hwn, gellir trafod y digwyddiad a roddodd fod i'r angen am etholiad yn unol â darpariaethau perthnasol y Cyfansoddiad heb i'r cyfryw gynrychiolwyr plwyf gymryd rhan.

1.7 Dim ond ar gyfer yr achlysur a roddodd fod i'r etholiad y bydd y Cyngor Plwyf Eglwysig yn ethol cynrychiolwyr yn unol â'r Rheoliad hwn, ond byddant ar dir i'w hailethol ar achlysur dilynol.

2.1 Yng nghyfarfod cyntaf Cynhadledd Esgobaeth newydd ei hethol, bydd aelodau Clerigol y Gynhadledd yn ethol deuddeg Clerig sy'n aelodau o'r Gynhadledd, a'r aelodau lleyg yn ethol naw person lleyg sy'n aelodau o'r Gynhadledd, a gosodir yr enwau ar ddwy restr yn y drefn y dymunir iddynt weithredu ar Fwrdd Enwebu'r Esgobaeth.

2.2 Aelodau'r Bwrdd am y tro fydd y ddau neu fwy sydd â'u henwau'n uchaf ar restr y Clerigion a'r tri sydd â'u henwau'n uchaf ar y rhestr leyg. Os bydd farw unrhyw un o'r aelodau hyn o'r Bwrdd, cymerir ei le neu ei lle gan y sawl sydd nesaf ar y rhestr Glerigol neu leyg fel y digwydd.

2.3 Os bydd un o aelodau'r Bwrdd yn methu neu'n anfodlon bod yn bresennol, bydd yn ddyletswydd arno roi gwybod hynny yn ddiymdroi i Ysgrifennydd y Bwrdd, a fydd wedyn yn galw'r person nesaf ar y rhestr sy'n gallu bod yn bresennol ac yn fodlon dod, a bydd y person hwnnw'n aelod o'r Bwrdd am y cyfarfod hwnnw.

3.1 Yr Esgob neu ei Gomisari, a benodwyd ganddo mewn ysgrifen, fydd yn llywyddu Bwrdd Enwebu'r Esgobaeth, a bydd ganddo bleidlais fwrw. Os bydd yr Esgob a'i Gomisari yn absennol, bydd y Bwrdd yn ethol cadeirydd o blith ei aelodau, a bydd ganddo bleidlais fwrw.

3.2 Os bydd Bwrdd Enwebu'r Esgobaeth yn cyfarfod tra bo'r Esgobaeth yn wag, yr Archddiacon blaenaf fydd yn llywyddu, a bydd ganddo bleidlais fwrw.

1.4 The persons or person referred to in Regulations 1.1.5 and 1.2.5 shall be elected by the Parochial Church Council from among its lay members within 28 days of notification to the Parochial Church Council by the Secretary of the Diocesan Nomination Board of the vacancy to which such regulations relate.

1.5 Within 28 days of notification to the Parochial Church Council by the Secretary of the occurrence of any of the following events namely:

1.5.1 a vacancy in the incumbency to which Regulation 9 applies;

1.5.2 a proposal by the Bishop to proceed to remove the Incumbent pursuant to Chapter VI section 17;

1.5.3 the Bishop or Bishops as the case may be consenting to an exchange of Benefices pursuant to Regulation 18; or

1.5.4 the Bishop deciding to proceed pursuant to Chapter VI section 8 to appoint a Vicar in a Rectorial Benefice;

the Parochial Church Council shall elect two of its lay members to be the representatives of the Parish on the Diocesan Nomination Board.

1.6 If the Parochial Church Council fails to elect representatives pursuant to this Regulation, the event which has given rise to the need for an election may be dealt with in accordance with the relevant provisions of the Constitution without the participation of such parochial representatives.

1.7 The Parochial Church Council representatives shall be elected in accordance with this Regulation for the event which has given rise to the election and not further but shall be eligible for re-election on a subsequent occasion.

2.1 At the first meeting of a newly elected Diocesan Conference, the Clerical members of the Conference shall elect twelve Clerics being members of the Conference, and the lay members shall elect nine lay persons being members of the Conference, and in each case their names shall be placed on a list in the order in which it is desired they shall act on the Diocesan Nomination Board.

2.2 The two or more persons whose names appear at the head of the Clerical list and the three persons whose names appear at the head of the lay list shall be members of the Board for the time being. In the event of the death of any member of the Board his or her place shall be taken by the person next on the Clerical or lay list as the case may be.

2.3 In the event of any member of the Board being unable or unwilling to attend, it shall be his or her duty to notify the same forthwith to the Secretary of the Board, who shall thereupon summon the person next on the list who is able and willing to attend, who shall for that meeting be a member of the Board.

3.1 The Bishop, or his Commissary appointed in writing, shall preside at the Diocesan Nomination Board and have a casting vote. In the event of the absence of the Bishop and his Commissary, the Board shall elect a chairman from among its members, who shall have a casting vote.

3.2 If the Diocesan Nomination Board meets during the vacancy of the See, the senior Archdeacon shall preside and have a casting vote.

4. Gall yr Esgob o bryd i'w gilydd alw cyfarfod o'r Archddiaconiaid a'r aelodau Clerigol a lleyg a etholwyd ar Fwrdd Enwebu'r Esgobaeth gan Gynhadledd yr Esgobaeth, i ymgynghori ag ef ar bolisi cyffredinol enwebu yn yr esgobaeth.

5.1 Ni roddir unrhyw ystyriaeth i berigloriaeth sy'n wag neu'n debyg o fynd yn wag, nac enwebu neb i fywoliaeth wag, heb fod rhybudd wedi'i roi i bob aelod o'r Bwrdd, y bydd ei aelodaeth yn unol â Rheoliad 1 o hynyma, bedwar diwrnod ar ddeg clir ymlaen llaw am amser a lle'r cyfarfod ac am bob bywoliaeth wag sydd i'w llanw ac am y bwriad i enwebu ar gyfer hynny.

5.2 Yn ddarostyngedig i'r hyn a ddywedwyd eisoes ac i Reoliadau 5.3 a 5.4, bydd y Bwrdd yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn, yn ystod pythefnos cyntaf misoedd Ionawr, Ebrill, Gorffennaf a Hydref.

5.3 Oni bydd, wythnos cyn y cyfarfod chwaterol, unrhyw blwyf gwag i'w lenwi, bydd yr Ysgrifennydd, onis cyfarwyddir i'r gwrthwyneb gan yr Esgob, yn hysbysu'r aelodau bod y cyfarfod wedi'i ddiddymu.

5.4 Gall yr Esgob gynnull cyfarfodydd rhwng y cyfarfodydd chwarterol, a bydd yn rhaid iddo eu cynnull ar gais ysgrifenedig dau aelod o'r Bwrdd.

6. Ysgrifennydd Cynhadledd yr Esgobaeth fydd Ysgrifennydd Bwrdd Enwebu'r Esgobaeth a bydd yn bresennol yn ei gyfarfodydd.

7. Yn ddarostyngedig i alluoedd y Corff Llywodraethol a Chynhadledd yr Esgobaeth, bydd Bwrdd Enwebu'r Esgobaeth yn rheoli ei fusnes a'i weithdrefnau ei hun trwy reolau sefydlog.

Bwrdd Enwebu'r Dalaith

8.1 Aelodau Bwrdd Enwebu'r Dalaith fydd:

8.1.1 yr Esgobion Cadeiriol;

8.1.2 Cadeirydd Corff y Cynrychiolwyr (os yw'n berson lleyg) neu berson lleyg a enwebodd neu, os bydd cadeirydd Corff y Cynrychiolwyr yn Glerig, berson lleyg a enwebodd; a

8.1.3 pherson lleyg yn cynrychioli'r Esgobaeth lle y mae'r plwyf gwag, ac a benodir yn unol â Rheoliad 8.3.

8.2 Y cworwm fydd tri pherson, sef:

8.2.1 yr Archesgob neu, yn ei absenoldeb, yr Esgob Cadeiriol blaenaf a fydd yn barod i weithredu, ond nid Esgob yr esgobaeth lle y mae'r plwyf gwag;

8.2.2 Esgob yr esgobaeth lle y mae'r plwyf gwag; a

8.2.3 pherson lleyg, sef Cadeirydd Corff y Cynrychiolwyr neu un a enwebodd neu gynrychiolydd lleyg yr esgobaeth;

ar yr amod, os bydd y plwyf gwag yn esgobaeth yr Archesgob, y bydd y cworwm yn cynnwys yr Esgob Cadeiriol blaenaf a fydd yn barod i weithredu.

4. The Bishop may from time to time summon a meeting of the Archdeacons, and the Clerical and lay members of the Diocesan Nomination Board elected by the Diocesan Conference to confer with him on the general policy of nomination in the diocese.

5.1 No consideration of a vacancy or prospective vacancy shall be entertained, and no nomination to a vacant cure shall be made, unless fourteen clear days' notice of the time and place of meeting and of the vacancy or vacancies to be filled and of the intention to nominate thereto shall have been given to all members of the Board as constituted in Regulation 1 hereof.

5.2 Subject as aforesaid and to Regulations 5.3 and 5.4, the Board shall meet four times a year, during the first fortnight of January, April, July and October.

5.3 If, one week before the quarterly meeting of the Board, there is no vacancy to be filled, the Secretary, unless the Bishop directs to the contrary, shall give notice to the members that the meeting is cancelled.

5.4 Intermediate meetings may be convened by the Bishop, and shall be convened by him on the request in writing of two members of the Board.

6. The Secretary of the Diocesan Conference shall be the Secretary of the Diocesan Nomination Board and shall attend all meetings thereof.

7. Subject to the power of the Governing Body and of the Diocesan Conference, a Diocesan Nomination Board shall manage its own affairs and procedure by standing orders.

The Provincial Nomination Board

8.1 The Provincial Nomination Board shall consist of:

8.1.1 the Diocesan Bishops;

8.1.2 the Chairman of the Representative Body (if a lay person) or a lay person nominated by him or her, or in the event that the Chairman of the Representative Body is a Cleric, a lay person nominated by him or her; and

8.1.3 the lay person representing the Diocese in which the cure is vacant, who shall be appointed accordance with Regulation 8.3.

8.2 A quorum shall consist of three persons, being:

8.2.1 the Archbishop or in his absence the next senior Diocesan Bishop willing to act other than the Bishop of the diocese in which the vacancy has occurred;

8.2.2 the Bishop of the diocese in which the vacancy has occurred; and

8.2.3 a lay person being the Chairman of the Representative Body or his or her nominee or the diocesan lay representative;

provided that if the vacancy has occurred in the diocese of which the Archbishop is the Diocesan Bishop, the quorum shall include the next senior Diocesan Bishop willing to act.

8.3.1 Yn ei gyfarfod cyntaf ar ôl pob etholiad tair blynyddol yn unol â Rheoliad 1, bydd Bwrdd Enwebu'r Esgobaeth yn ethol person lleyg i gynrychioli'r Esgobaeth ar Fwrdd Enwebu'r Dalaith ac yn enwebu tri pherson lleyg arall, a gosodir eu henwau ar restr atodol yn y drefn y dymunir iddynt weithredu.

8.3.2 Os bydd farw'r person lleyg etholedig, cymerir ei le ar Fwrdd Enwebu'r Dalaith gan y person lleyg sydd â'i enw'n uchaf ar y rhestr atodol.

8.3.3 Os bydd y person lleyg etholedig yn methu neu'n anfodlon mynd i gyfarfod y galwyd ef iddo, bydd yn ddyletswydd arno roi gwybod hynny yn ddiymdroi i Ysgrifennydd Bwrdd Enwebu'r Dalaith, a fydd wedyn yn galw'r person lleyg nesaf ar y rhestr sy'n gallu bod yn bresennol ac yn fodlon dod, a bydd y person hwnnw'n aelod o Fwrdd Enwebu'r Dalaith am y cyfarfod hwnnw.

8.4 Cyn pen saith niwrnod wedi ei hysbysu bod bywoliaeth y mae gan Fwrdd Enwebu'r Dalaith hawl i enwebu iddi yn wag, rhaid i Ysgrifennydd Bwrdd Enwebu'r Esgobaeth hysbysu hynny i Gofrestrydd yr Archesgob, a fydd yn Ysgrifennydd Bwrdd Enwebu'r Dalaith. Rhaid i'r hysbysiad ddatgan:

8.4.1 y rheswm pam bod y fywoliaeth yn wag;

8.4.2 dyddiad penodi'r cyn-beriglor;

8.4.3 nifer y curadiaid (os oes rhai) a nifer y gwasanaethau Cymraeg (os oes rhai);

8.4.4 cyflog penodedig y Fywoliaeth; ac

8.4.5 a oes persondy neu ynteu lwfans tŷ (ac os felly, faint).

8.5 Cyn pen tri diwrnod ar ôl derbyn hysbysiad o'r fath bydd Cofrestrydd yr Archesgob yn anfon copi ohono at bob aelod o Fwrdd Enwebu'r Dalaith.

8.6 Os bydd angen mwyafrif o'r Bwrdd i wneud penderfyniad, bydd yr Archesgob yn penderfynu ym mhob achos y weithdrefn y bydd Bwrdd Enwebu'r Dalaith yn ei dilyn i enwebu i'r Fywoliaeth wag, a bydd yn hysbysu'r Cofrestrydd o hynny, a'r Cofrestrydd yn hysbysu aelodau eraill y Bwrdd.

9. Ni bydd yr Esgob na Bwrdd Enwebu'r Dalaith yn arfer unrhyw hawl i goladu nac enwebu nes bod enwau'r sawl y cynigir eu coladu neu eu henwebu wedi'u cyflwyno i'r rhai a fyddai'n cynrychioli'r Plwyf ar Fwrdd Enwebu'r Esgobaeth pe bai'r hawl i enwebu gan y Bwrdd hwnnw, a'r rhai hynny wedi cael cyfle llawn i ddatgan eu barn.

8.3.1 At its first meeting after each triennial election provided for in Regulation 1, the Diocesan Nomination Board shall elect a lay person to represent the Diocese on the Provincial Nomination Board and shall nominate three other lay persons whose names shall be placed on a supplemental list in the order in which it is desired they shall act.

8.3.2 In the event of the death of the elected lay person his or her place on the Provincial Nomination Board shall be taken by the lay person whose name appears first on the supplemental list.

8.3.3 In the event of the elected lay person when summoned to act being unable or unwilling to attend, it shall be his or her duty to notify the same forthwith to the Secretary of the Provincial Nomination Board who shall thereupon summon the lay person next on the list who is able and willing to attend, who shall for that meeting be a member of the Provincial Nomination Board.

8.4 The Secretary of a Diocesan Nomination Board shall within seven days of receiving notification of a vacancy in a cure to which the Provincial Nomination Board is entitled to nominate, send notice thereof to the Archbishop's Registrar who shall be the Secretary of the Provincial Nomination Board. Such notice shall state:

8.4.1 the reason for the vacancy;

8.4.2 the date of the previous Incumbent's appointment;

8.4.3 the number of curates (if any) and the number of services in Welsh (if any);

8.4.4 the scheduled stipend of the Benefice; and

8.4.5 whether there is a parsonage or a housing allowance (and if so, how much).

8.5 The Archbishop's Registrar shall within three days of the receipt of such notice send a copy to each member of the Provincial Nomination Board.

8.6 The Archbishop shall decide and inform the Registrar of the procedure to be adopted in each case by the Provincial Nomination Board for making the nomination to the vacancy (provided that a majority of the Board shall be needed for a decision), and the Registrar shall give notice thereof to the other members of the Board.

9. Neither the Bishop, nor the Provincial Nomination Board shall exercise any right of collation or nomination respectively until the names of the persons who may be proposed to be collated or nominated have been submitted and full opportunity to make their views known has been afforded to those persons who, if the right of nomination had been vested in the Diocesan Nomination Board, would have been the representatives of the Parish on that Board.

Methiant i Enwebu

10. Os bydd Bwrdd Enwebu'r Esgobaeth heb arfer ei hawl i enwebu i fywoliaeth cyn pen chwe mis wedi i'r fywoliaeth y perthyn yr hawl hwnnw iddi fynd yn wag, bydd yr hawl i benodi i'r fywoliaeth yn mynd i'r Esgob.

11. Os bydd gan yr Esgob yr hawl i goladu i unrhyw fywoliaeth naill ai yn unol ag adran 7(3) neu yn dilyn methiant Bwrdd Enwebu'r Esgobaeth i enwebu yn unol â Rheoliad 10, a'i fod heb enwebu Clerig i'w benodi i'r fywoliaeth honno cyn pen chwe mis wedi iddi ddod yn wag neu i'r hawl i benodi iddi ddod iddo ef, bydd yr hawl i enwebu i'r fywoliaeth wag yn mynd i Fainc yr Esgobion ac ystyrir ddarfod gwneud y cyfryw enwebiad gan yr Esgob neu Fwrdd Enwebu'r Esgobaeth ar y dyddiad pan wneir ef.

12. Os bydd Bwrdd Enwebu'r Dalaith heb arfer ei hawl i enwebu i fywoliaeth cyn pen chwe mis wedi i'r fywoliaeth y perthyn yr hawl hwnnw iddi fynd yn wag, bydd yr hawl i enwebu i'r fywoliaeth wag yn mynd i Fainc yr Esgobion, a chyfrifir i Fwrdd Enwebu'r Dalaith enwebu ar y dyddiad yr enwebwyd gan y Fainc.

.

Gweithdrefn yn dilyn Enwebu

13. Bydd Ysgrifennydd y Bwrdd Enwebu priodol yn:

13.1 anfon i'r Esgob fanylion llawn am bob enwebiad a wnaed mewn unrhyw gyfarfod o'r Bwrdd cyn pen saith niwrnod;

13.2 hysbysu pob Clerig a enwebwyd i Fywoliaeth gan y Bwrdd am yr enwebu hwnnw trwy lythyr y cofnodwyd ei anfon ac a anfonwyd i'w gyfeiriad hysbys diwethaf cyn pen saith niwrnod; ac

13.3 ar dderbyn llythyr oddi wrth y Clerig yn derbyn y Fywoliaeth, yn hysbysu'r Esgob ar unwaith o hynny.

14. Bydd yr enwebiad yn ddi-rym:

14.1 os bydd y Clerig hwnnw heb gytuno i'r enwebiad trwy lythyr a gyfeiriwyd at yr Esgob cyn pen pedair wythnos o'r dydd y gallai'r cyfryw lythyr y cofnodwyd ei anfon fod wedi cyrraedd ei gyfeiriad; neu

14.2 os bydd wedi cytuno, ond ei fod oherwydd rhyw fai o'r eiddo'i hun heb ei sefydlu yn ystod y cyfnod a bennwyd gan yr Esgob;

ar yr amod y gall yr Esgob estyn y cyfnod uchod o bedair wythnos a'r cyfnod a bennwyd ar gyfer y sefydlu.

Failure to nominate

10. If the Diocesan Nomination Board does not nominate to a vacancy within six months of the occurring of the vacancy to which the right of nomination applies, the appointment to the cure shall pass to the Bishop.

11. If the Bishop has the right to collate to any cure either pursuant to section 7(3) or following the failure of the Diocesan Nomination Board to nominate in accordance with Regulation 10 and does not nominate a Cleric for appointment to such cure within six months of the vacancy occurring or the right of appointment devolving upon him the right to nominate to the vacancy shall pass to the Bench of Bishops and such nomination shall be deemed to have been made by the Bishop or the Diocesan Nomination Board respectively as from the date on which it is made.

12. If the Provincial Nomination Board does not exercise its right of nominating to a cure within six months of the occurring of the vacancy to which the right of nomination applies, the right to nominate to the vacancy shall pass to the Bench of Bishops, and such nomination shall be deemed to have been made by the Provincial Nomination Board as from the date on which it is made.

Procedure following nomination

13. The Secretary of the appropriate Nomination Board shall:

13.1 within seven days send to the Bishop full particulars of all nominations made at any meeting of such Board;

13.2 within seven days send to any Cleric nominated by such Board to a cure notice of such nomination by recorded-delivery letter to his or her last known address; and

13.3 on receipt of the letter of acceptance of a cure from the Cleric shall forthwith send notice thereof to the Bishop.

14. The nomination shall be null and void:

14.1 if such Cleric does not accept the nomination by a letter addressed to the Bishop within four weeks from the date upon which such recorded-delivery letter might have reached his or her address; or

14.2 if he or she shall accept, but through any default on his or her own part shall fail to be instituted within the time fixed by the Bishop;

provided that the above period of four weeks and the time fixed for institution may be extended by the Bishop.

15. Os â unrhyw enwebiad yn ddi-rym yn unol â Rheoliad 14, rhaid i'r Esgob roi gwybod ar unwaith i Ysgrifennydd y Bwrdd Enwebu priodol. Os â enwebiad gan y Bwrdd yn ddi-rym felly, bydd yr Ysgrifennydd yn cynnull cyfarfod arbennig o'r Bwrdd i enwebu o'r newydd, ac yna estynnir y cyfnod o bedwar mis a roddir i'r Bwrdd at enwebu hyd fis ar ôl y rhybudd sy'n galw'r cyfarfod.

16. Ni sefydlir Clerig mewn gofalaeth tra bo deiseb neu gyngaws ar droed ynglŷn â'i enwebiad.

Rhan II: Sefydlu

Sefydlu yn dilyn derbyn

17.1 Pan fo Esgob wedi sefydlu Clerig a enwebwyd gan Fwrdd, bydd yn hysbysu Ysgrifennydd y Bwrdd hwnnw ar unwaith, a bydd Cofrestrydd yr Esgobaeth yn rhoi gwybod ar unwaith i Ysgrifenyddion Corff y Cynrychiolwyr a Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth am bob coladu a sefydlu.

17.2 Bydd cyflog y Clerig, os oes cyflog, yn cychwyn ar ddiwrnod ei sefydlu neu ar ryw ddiwrnod cynharach y gall Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth ei benodi mewn unrhyw achos arbennig.

Rhan III: Cyfnewid Bywoliaethau

18.1 Pan fo dau Beriglor yn dymuno cyfnewid Bywiolaethau, rhaid i bob un ohonynt wneud cais ysgrifenedig at Esgob ei esgobaeth am ganiatâd i wneud hynny.

18.2 Gall yr Esgob, neu os yw'r ddwy Fywoliaeth mewn gwahanol esgobaethau, y naill neu'r llall o'r Esgobion, wrthod rhoi caniatâd.

18.3 Os bydd yr Esgob neu'r Esgobion yn cydsynio i'r cyfnewid, rhaid i bob Esgob gynnull Bwrdd Enwebu ei Esgobaeth cyn pen mis wedi'r dyddiad y gwnaed y cais am gyfnewid. Aelodau Bwrdd Enwebu i'r pwrpas hwn fydd yr Esgob, Archddiaconiaid yr archddiaconiaethau lle y mae'r Bywoliaethau hynny, aelodau'r Bwrdd a etholwyd gan Gynhadledd yr Esgobaeth, a chynrychiolwyr y ddau Blwyf.

18.4 Os bydd y Bwrdd neu'r Byrddau Enwebu yn cydsynio i'r cyfnewid, daw'r cyfnewid i rym yn unol â hynny, a bydd yr Esgob neu'r Esgobion yn pennu dyddiad i'r ofalaeth ym mhob Bywoliaeth fynd yn wag, ac yna'n sefydlu pob Clerig yn ei briod ofalaeth.

18.5 Ni chymhwysir y pedair adran ddiwethaf at achos lle y bo Periglor plwyf neu ardal y tu allan i Gymru yn dymuno cyfnewid Bywoliaeth am Fywoliaeth yng Nghymru. Mewn achos o'r fath, bydd Esgob yr esgobaeth y mae'r periglor hwnnw'n dymuno symud iddi yn penderfynu beth sydd i'w wneud.

15. If a nomination becomes null and void in pursuance of Regulation 14, the Bishop shall forthwith cause notice thereof to be given to the Secretary of the appropriate Nomination Board. If a nomination by the Board so becomes null and void, the Secretary shall convene a special meeting of such Board to make another nomination, in which event the time of four months allowed to the Board to make such nomination shall be extended till one month after the notice convening the meeting.

16. No Cleric shall be instituted to a cure while a petition or suit respecting his or her nomination thereto is pending.

Part II: Institution

Institution following acceptance

17.1 Upon the Bishop instituting the Cleric nominated by a Board, he shall forthwith give notice thereof to the Secretary of such Board, and the Diocesan Registrar shall inform the Secretaries of the Representative Body and the Diocesan Board of Finance respectively forthwith of all collations and institutions.

17.2 The stipend, if any, of the Cleric shall run from the date of his or her institution, or from such earlier date as may be determined by the Diocesan Board of Finance in any particular case.

Part III: Exchange of Benefices

18.1 When two Incumbents desire to exchange their Benefices each of them shall apply in writing to the Bishop of his or her diocese for permission to do so.

18.2 The Bishop, or, in case the two Benefices are in different dioceses, either Bishop, may decline to grant permission.

18.3 If the Bishop or Bishops consent to the exchange, he or they shall convene the Nomination Board or Boards of the diocese or dioceses within one month after the application for exchange has been made. A Nomination Board for the purpose of this section shall be the Bishop, the Archdeacons of the archdeaconries in which such Benefices are situate, the members of the Board elected by the Diocesan Conference, and the Parish representatives from each Parish.

18.4 If such Nomination Board or Boards consent to the exchange, the exchange shall take effect accordingly, and the Bishop or Bishops shall fix a day on which the cure in each Benefice shall become vacant, and shall then institute the Clerics to their respective cures.

18.5 The last four sub-paragraphs shall not apply to any case in which an Incumbent of a parish or district outside Wales is desirous of exchanging his or her Benefice for a Benefice in Wales. In such case the Bishop of the diocese into which such Incumbent is desirous of exchanging shall decide what shall be done in the matter.

Cynhyrchwyd gan Adran Gyhoeddiadau yr Eglwys yng Nghymru.
Argraffwyd ar ddefnyddiau a ailgylchwyd
Produced by the Church in Wales Publications Department.
Printed on recycled materials